# Cyfrannu at wneud asesiadau risg yn y lleoliad gwaith chwarae

## Trosolwg

Mae a wnelo'r safon hon â chyfrannu at y broses o asesu peryglon a manteision a gwneud asesiadau risg-manteision yn y lleoliad gwaith chwarae.

**Prif ddeilliannau'r safon hon ydy:**

1. Cyfrannu at y broses o asesu peryglon a manteision
2. Gwneud asesiadau risg-manteision dynamic

Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr chwarae sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc mewn lleoliad gwaith chwarae ac sy'n gyfrifol yn bennaf am roi cyfleoedd i blant chwarae fel maen nhw'n dewis ac yn dymuno ei wneud. Mae'r safon ar gyfer staff nad ydyn nhw'n llwyr gyfrifol am y lleoliad gwaith chwarae ond sy'n gwneud cyfraniad allweddol i gefnogi chwarae.

**Mae'r safon hon yn ategu'r Egwyddorion Gwaith Chwarae. Mae angen i weithwyr chwarae fod yn gyfarwydd â'r rhain, a lle bo'n bosib, eu defnyddio wrth eu gwaith ac wrth adlewyrchu.* *

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

**Cyfrannu at y prosesau asesu peryglon-manteision**

1. archwilio **agweddau o’r lleoliad gwaith chwarae** mewn perthynas â’r prosesau asesu peryglon-manteision
2. cyfrannu at yr asesiadau risg-manteision ar y cyd ag **eraill**

**Gwneud asesiad risg-manteision dynamig**

1. arsylwi plant a phobl ifanc yn chwarae
2. asesu’r niwed posib
3. asesu’r manteision posib
4. dewis ffordd o ymyrryd fydd ddim yn tarfu ar y fframwaith chwarae

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

**Cyfrannu at y prosesau asesu risg - manteision**

1. yr Egwyddorion Gwaith Chwarae sy'n rhan o fframwaith proffesiynol a moesegol gwaith chwarae a sut mae modd cymhwyso pob un o'r egwyddorion i'ch gwaith chi
2. sut i adnabod manteision
3. sut i asesu peryglon
4. sut a phryd i leihau'r peryglon sy'n gysylltiedig â'r peryglon hyn, ar y cyd ag **eraill**, ond gan gadw elfen o her

**Gwneud asesiadau risg-manteision dynamig**

1. sut i arsylwi plant a phobl ifanc yn chwarae
2. dulliau ymyrryd sy'n caniatáu i blant a phobl ifanc ehangu eu chwarae
3. sut i gydbwyso risg gyda'r lles a'r manteision i blant a phobl ifanc
4. sut i ymyrryd i newid y sefyllfa er mwyn leihau'r risg, ond gan fod yn ymwybodol o'r effaith y gall hyn ei gael ar chwarae'r plant neu'r bobl ifanc.
5. sut mae datblygiad a phrofiadau plant yn effeithio ar eu gallu i reoli risg, yn gorfforol ac yn feddyliol, drostyn nhw eu hunain.

SAFONAU GALWEDIGAETHOL CENEDLAETHOL

## Cwmpas/Ystod

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad